# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

# Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

# WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

# A GYFLWYNWYD / TABLED ON

# 29/6/00

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2000-0065 Canolfannau 'Un Stop'/ 'One Stop' Centres

27 Jun 2000 Raised by Janet Ryder

1 Subscriber:

Mick Bates

*Mae'r Cynulliad hwn yn cadarnhau ei ymrwymiad i lywodraeth agored a hygyrch ac yn cydnabod y gall pobl deimlo wedi'u hynysu oddi wrth y llywodraeth yng Nghymru. Mae'n galw felly am sefydlu canolfannau 'un stop' ledled y wlad, mewn adeiladau sydd eisoes ym meddiant y Cynulliad Cenedlaethol, ble gall pobl fanteisio'n haws ar wasanaethau a gwybodaeth y Cynulliad Cenedlaethol, gwylio'i drafodion drwy gyswllt clyweledol a chymryd rhan mewn trafodaethau drwy fideo gynhadledd.*

*This Assembly confirms its commitment to open and accessible government and recognises that people can feel isolated from the government in Wales. It therefore calls for 'one stop' centres to be established throughout the country, in existing buildings which are owned by the National Assembly, where people could more easily access National Assembly services and information, witness its proceedings via audio visual links and take part in discussions using video conferencing.*

# OPIN-2000-0064 Gwasanaeth Tân yng Nghymru/ Fire Service in Wales

21 Jun 2000 Raised by Ann Jones

28 Subscribers:

- Mick Bates
- Kirsty Williams
- Gareth Jones
- Cynog Dafis
- Alison Halford
- Gwenda Thomas
- Rhodri Glyn Thomas
- Ieuan Wyn Jones
- Richard Edwards
- Glyn Davies
- Karen Sinclair
- Val Feld
- Janet Davies
- Alun Pugh
- Delyth Evans
- Christine Humphreys
- Jenny Randerson
- Nicholas Bourne LLB LLM
- Lorraine Barrett
- Brian Gibbons FRCGP
- Huw Lewis
- Janice Gregory
- Ron Davies
- Lynne Neagle
- William Graham JP
- Peter Black
- Peter Rogers
- Janet Ryder

*Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod y cynlluniau i gael dim ond un Canolfan Reoli ar gyfer y Gwasanaeth Tân yng Nghymru gyfan wedi eu llunio'n wael ac y gallent beryglu bywydau. Credwn fod y cynnig i greu un Canolfan Reoli yn gwbl annerbyniol, gan y byddai'n arwain at oedi wrth ddelio â galwadau ac anfon peiriannau tân ac yn golygu gwasanaeth llai effeithiol ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Galwn ar yr Ysgrifennydd Cartref i wrthod y cynnig hwn ac i ymgynghori â'r Cynulliad ynghylch unrhyw gynigion eraill sy'n effeithio ar y Gwasanaeth Tân*

*yng Nghymru.*

*This Assembly recognises that plans for a single Fire Service Control Centre covering the whole of Wales are ill-conceived and could place lives at risk. We believe that the proposal for a single Control Centre is totally unacceptable, will lead to delays in call handling and despatch of fire appliances and result in a reduced service for the public in Wales. We call on the Home Secretary to reject this proposal and to consult with the Assembly on any further proposals affecting the Fire Service in Wales.*

## OPIN-2000-0063 Ymgyrch yn erbyn Argae llisu/ Campaign against the llisu Dam

15 Jun 2000 Raised by Cynog Dafis, Ron Davies, Glyn Davies, Michael German OBE

11 Subscribers:

Elin Jones
Kirsty Williams
Richard Edwards
Jenny Randerson
Nicholas Bourne LLB LLM
Ann Jones
Janet Ryder
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
William Graham JP
Mick Bates
Owen John Thomas MA

*Yng ngoleuni ei ymrwymiad i egwyddorion sylfaenol amddiffyn hawliau dynol, arddel amrywiaeth ddiwyllianol a gwarchod yr amgylchfyd, y mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn mynegi ei wrthwynebiad i godi Argae llisu yn rhanbarth Gwrdaidd Twrci, ac yn galw ar Lywodraeth Prydain i wrthod hybu'r cynllun adeiladu.*

*In light of its commitment to the fundamental principles of defending human rights, of recognising cultural diversity and of protecting the environment, this National Assembly declares its opposition to the building of the llisu Dam in the Kurdish region of Turkey, and calls upon the UK Government to refuse to support the construction project.*

## OPIN-2000-0060 Tegwch yn y Gwaith - Deddfwriaeth Hawliau Cyflogaeth Newydd/Fairness at Work - New Employment Rights Legislation

13 Jun 2000 Raised by Val Feld

2 Subscribers:

Mick Bates
Richard Edwards

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn croesawu’r camau mawr ymlaen o ran hawliau undebau llafur a chyflogaeth fel canlyniad i weithredu Deddf Hawliau Cyflogaeth 1999. Mae’r ffordd newydd o ymgymryd â’r gydberthynas yn y gweithle yn cefnu ar y ffordd wrthdrawiadol a fabwysiadwyd gan y llywodraeth flaenorol yn ystod y 1980’au. Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn gresynu at ymgais rhai cyflogwyr i gyflwyno "union busters" yr UD, i rwystro cydberthynas bositif yn y gweithle, ac yn credu nad oes rhaid i gyflogwyr da boeni dim am y ddeddfwriaeth newydd.*

*This National Assembly welcomes the significant advance in trade union and employment rights resulting from the implementation of the Employment Rights Act 1999. The new approach to workplace relations is a welcome departure from the confrontation approach fostered by the previous government throughout the 1980s. The National Assembly deplores attempts by some employers to bring in US "union busters" to frustrate positive workplace relations and further believes that good employers have nothing to fear from the new legislation.*

## OPIN-2000-0059 Y Loteri Genedlaethol/ National Lottery

07 Jun 2000 Raised by Alison Halford

18 Subscribers:

Mick Bates
Kirsty Williams
Peter Black
Val Feld
Gareth Jones
Richard Edwards
Janice Gregory
Ann Jones
Helen Mary Jones
Janet Davies
Brian Gibbons FRCGP
Janet Ryder

Glyn Davies
Gwenda Thomas
John Griffiths LLB
Ron Davies
Jenny Randerson
Owen John Thomas MA

*Mae'r Cynulliad hwn yn galw ar Lywodraeth y DU i adolygu dyraniad arian y loteri i Gymru i sicrhau dosbarthiad tecach rhwng holl ranbarthau'r DU.*
*Mae hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau mwy o dryloywedd wrth Benodi Aelodau Bwrdd y Cyrff Dyrannu.*

*This Assembly calls on the UK Government to review the allocation of lottery funding for Wales to ensure a fairer distribution between all of the regions within the UK.*
*It further calls on the UK Government to ensure there is more transparency in the Appointment of Board Members on the Allocating Bodies.*

## OPIN-2000-0056 NHS a’r Corff Adolygu Cyflogau/NHS and the Pay Review Body

22 May 2000 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

3 Subscribers:

Kirsty Williams
Elin Jones
Gareth Jones

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi am yr ail flwyddyn yn olynol fod staff proffesiynol, technegol a gwyddonol yr NHS sydd y tu allan i’r Corff Adolygu Cyflogau wedi derbyn codiadau cyflog is na’r rhai a ddyfarnwyd i staff debyg o fewn y Corff Adolygu Cyflogau ac mae’n galw ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gymryd mesurau i ddatrys y sefyllfa hon yn rownd gyflogau eleni i osgoi effeithio’n andwyol ar y gwasanaethau y mae’r bobl hyn yn eu darparu ac i egluro yn union pa broffesiynau a graddau cysylltiedig yn yr NHS fydd yn symud i statws y Corff Adolygu Cyflogau er mwyn atal digalondid a helpu i gadw’r sgiliau hyn at y dyfodol.*
*The National Assembly notes that for the second year running NHS professionals, technical and scientific staff outside the Pay Review Body have received pay increases less than those awarded to comparable staff within the Pay Review Body and calls upon the Secretary of State to take steps to remedy that situation in this years pay round to avoid an adverse impact on the services these staff provide and to clarify precisely which NHS professions and related grades will move to the Pay Review Body status in order to help stem declining morale and help retain these skills for the NHS.*

## OPIN-2000-0052 Tir Halogedig/ Contaminated land

17 May 2000 Raised by Geraint Davies, Jocelyn Davies, Pauline Jarman

5 Subscribers:

- Mick Bates
- Elin Jones
- Gareth Jones
- Owen John Thomas MA
- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arfer ei bwerau i wneud gorchymyn cychwyn sy'n dod â Rhan IIA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i rym, sy'n cynnwys mesurau y byddai'n ei gwneud yn ofynnol i adfer tir halogedig sy'n anharddu Cymru. Byddai'n strategaeth gynhwysfawr ar gyfer nodi, asesu ac adfer tir sydd wedi'i halogi yn y gorffennol, megis tir Phurnacite gynt yng Nghwm Cynon, ac yn aseinio rhwymedigaethau ar y sail mai'r "llygrwr sy'n talu". Mae gan y Cynulliad ddyletswydd i sicrhau bod y gorchymyn cychwyn hwn yn cael ei ddeddfu fel mater o flaenoriaeth er mwyn rhyddhau tir at ddibenion datblygu diwydiannol, tai a hamdden.*

*That the National Assembly for Wales exercises it's power to make a commencement order bringing into force Part IIA of the Environmental Protection Act 1990 which contains measures that would require remediation of contaminated land which blights Wales. It would provide a coherent strategy for identifying, assessing and remediating historically contaminated land such as the former Phurnacite land in Cynon Valley and assigning liabilities on the basis of the "polluter pays" principle. The Assembly has a duty to ensure that this commencement order is enacted as a priority, to enable the release of land for industrial development, housing and leisure.*

## OPIN-2000-0045 Gwydrau Bar/ Bar Glassware

18 Apr 2000 Raised by Ann Jones, Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther, David Melding, Jenny Randerson

5 Subscribers:

- Kirsty Williams
- Richard Edwards
- Peter Black

Owen John Thomas MA
Mick Bates

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod bod rhwng 3,500 a 5,500 o anafiadau yr hysbysir yr heddlu ohonynt bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr sy'n cael eu hachosi gan ymosodiadau lle defnyddir gwydrau bar ac, felly, mae'n galw am gyflwyno Safon Brydeinig a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl wydrau o'r fath gael eu gwneud o wydr gwydn.*

*This Assembly recognises that there are between 3,500 and 5,500 reported injuries per year in Wales and England caused by assaults using bar glassware and, therefore, calls for the introduction of a British Standard requiring all such glassware to be made of toughened glass.*